

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
29/11/2011

Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg.

Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant/signifies that the Member has declared an interest.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg/signifies that the question was tabled in Welsh.

Contents

- 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for the Environment and Sustainable Development

Treulio Anaerobig ar Ffermydd

On-Farm Anaerobic Digestion

8. Antoinette Sandbach: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer treulio anaerobig ar ffermydd. OAQ(4)0056(ESD) Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeiadd.

8. Antoinette Sandbach: Will the Minister make a statement on the Welsh Government's support for on-farm anaerobic digestion. OAQ(4)0056(ESD) Transferred for written answer by the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes.

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): Support is provided through Farming Connect via its fully funded knowledge transfer programme, and 80 per cent funding is available to eligible farmers for one-to-one business support and training. An investment programme has been developed to help make sustainable municipal food waste treatment infrastructure affordable.

Atebwyd cwestiynau 9, 10 ac 11 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 9, 10 and 11 answered in Plenary.

Tariff Cyflenwi Trydan

Feed-in Tariff

12. Eluned Parrott: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cynigion tariff cyflenwi trydan ar gyfer ynni amgen. OAQ(4)0066(ESD)

12. Eluned Parrott: What discussions has the Minister had regarding feed-in tariff proposals for alternative energy. OAQ(4)0066(ESD)

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I met

Chris Huhne, Secretary of State at the Department of Energy and Climate Change, last Thursday and discussed the proposed changes to the feed-in tariffs.

Blaenoriaethau

Priorities

13. Elin Jones: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y chwe mis nesaf.* OAQ(4)0058(ESD) [W]

13. Elin Jones: *What are the Minister's priorities for the next six months.* OAQ(4)0058(ESD) [W]

John Griffiths: Yr wyf yn ymrwymedig i fodloni'r ymrwymadau a nodir ar gyfer fy mhorthffolio yn y rhaglen lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth ac integreiddio'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn rheoleiddio ein defnydd o dir, môr, awyr a dŵr.

John Griffiths: I am committed to fulfilling the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. These include: putting sustainable development at the heart of Government and integrating the way in which we manage and regulate our use of land, sea, air and water.

Uno Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth

Merging of the Environment Agency, Countryside Council for Wales and Forestry Commission

14. Keith Davies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i ddwyn Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd yn un sefydliad.* OAQ(4)0057(ESD) [W]

14. Keith Davies: *Will the Minister give an update on the plans to merge the Environment Agency, the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission into one establishment.* OAQ(4)0057(ESD) [W]

John Griffiths: Heddiw anfonais lythyr at bob aelod o staff yn y tri chorff a phob un o'r prif randdeiliaid ac yr wyf hefyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad yn amlinellu fy mhenderfyniad i fwrw ymlaen â sefydlu un corff amgylcheddol i Gymru.

John Griffiths: I have today sent a letter to all the staff in the three bodies and major stakeholders as well as issuing a written statement to Assembly Members announcing my decision to proceed with the establishment of a single environment body for Wales.

Nwy Siâl

Shale Gas

15. Leanne Wood: *Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o'r bygythiadau a berir o ddefnyddio nwy siâl yng Nghymru.* OAQ(4)0064(ESD)

15. Leanne Wood: *What assessment has been undertaken on the threats posed by the exploitation of shale gas in Wales.* OAQ(4)0064(ESD)

John Griffiths: We continue to review all the evidence on shale gas and maintain discussions with the Department of Energy and Climate Change, which has responsibility for granting exploration licences, well and field development consents, as well as with other parties, including the British Geological Survey and the Environment Agency.

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

Prynwyr Tro Cyntaf

First-time Buyers

9. Angela Burns: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi prynwyr tro cyntaf yng Nghymru. OAQ(4)0059(HRH)*

9. Angela Burns: *What steps is the Welsh Government taking to support first time buyers in Wales. OAQ(4)0059(HRH)*

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I recognise the difficulties that first-time buyers experience raising a mortgage and I am actively considering options to support first-time buyers such as indemnifying mortgages, which would avoid the need for prohibitively large deposits. The Welsh Government also continues to support the homebuy scheme in Wales.

Capeli Rhestredig

Listed Chapels

10. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gapeli rhestredig. OAQ(4)0066(HRH) [W]*

10. Rhodri Glyn Thomas: *Will the Minister make a statement on listed chapels. OAQ(4)0066(HRH) [W]*

Huw Lewis: Mae gan gapeli le arbennig yn nhreftadaeth Cymru. Maent yn cael eu rhestru os ydynt o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol ar lefel genedlaethol. Mae'n bwysig ein bod yn diogelu'r elfennau hynny sydd o ddiddordeb arbennig gan sicrhau ar yr un pryd bod ein capeli'n parhau i fod yn berthnasol i'r ffordd yr ydym yn addoli y dyddiau hyn.

Huw Lewis: Chapels have a special place in the heritage of Wales. They are listed if they have architectural or historical interest at the national level. It is important to protect that special interest while also maintaining their relevance to modern day worship.

Marchnad Tai

Housing Market

11. Angela Burns: *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i ennyn hyder prynwyr a gwerthwyr yn y farchnad dai yng Nghymru. OAQ(4)0057(HRH)*

11. Angela Burns: *What is the Minister doing to inspire confidence in buyers and sellers in the housing market in Wales. OAQ(4)0057(HRH)*

Huw Lewis: I recognise the importance of confidence in the housing market. Of course, some of the factors affecting this are outside my control, but I am actively considering initiatives to stimulate the market. This includes indemnifying mortgages for first-time buyers.

Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(4)0065(HRH), yn ôl. Question 12, OAQ(4)0065(HRH), withdrawn.

Grwpiau Cymorth i Fenywod

Women's Aid Groups

13. Mick Antoniw: *Gan gadw'r Rhaglen Cefnogi Pobl mewn cof, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i grwpiau Cymorth i Fenywod yn Rhondda Cynon Taf sy'n darparu cefnogaeth i fenywod sy'n dianc rhag drais domestig. OAQ(4)0064(HRH)*

13. Mick Antoniw: *With regard to the Supporting People Programme, will the Minister give an update on the Welsh Government's support for Women's Aid groups in Rhondda Cynon Taf which provide support for women escaping domestic violence. OAQ(4)0064(HRH)*

Huw Lewis: Domestic abuse has a devastating impact on individuals, their families and other dependants, including children. We support Women's Aid groups who provide essential support in Rhondda Cynon Taf and I am grateful for their efforts and those of other organisations that are working to combat abuse and its consequences.

Blaenoriaethau

14. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai mewn cymunedau gwledig. OAQ(4)0060(HRH)*

Huw Lewis: My answer to your earlier question, question 3, responds directly to the points you have raised.

Tai Fforddiadwy

15. Llyr Huws Gruffydd: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy. OAQ(4)0070(HRH) [W]*

Huw Lewis: Ymdrinnir â'r mater hwn yn yr ateb a roddais i gwestiwn 8 gan Keith Davies ac yn y papur a gyflwynais yn ddiweddar i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Bydd yn bleser cael anfon copi atoch.

Priorities

14. Antoinette Sandbach: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for housing in rural communities. OAQ(4)0060(HRH)*

15. Llyr Huws Gruffydd: *Will the Minister make a statement on his plans for affordable housing OAQ(4)0070(HRH) [W]*

Huw Lewis: My answer to question 8 from Keith Davies covers this ground as does the paper I submitted recently as evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee. I will be pleased to send you a copy.